

## Digwyddiadau a risgiau cyffredin mewn anesthesia

Mae'r cerdyn crynhoi hwn yn dangos y digwyddiadau a'r risgiau cyffredin y mae cleifion sy'n oedolion iach o bwysau normal yn eu hwynebu wrth dderbyn anesthetig cyffredinol ar gyfer llawdriniaeth arferol (gall llawdriniaethau arbenigol beri risgiau gwahanol).

Mae anesthetigion modern yn ddiogel iawn. Gall y cyffuriau anesthetig neu'r offer a ddefnyddir achosi rhai sgil-ffeithiau cyffredin; nid ydynt fel arfer yn ddifrifol nac yn para'n hir. Bydd y risgiau'n amrywio rhwng unigolion ac yn dibynnu ar y driniaeth a'r dechneg anesthetig a ddefnyddir. Bydd eich anesthetegydd yn trafod y risgiau y mae'n ystyried sy'n fwy perthnasol i chi.

Mae yna risgiau eraill sy'n llai cyffredin ac na fydd eich anesthetegydd fel arfer yn eu trafod fel mater o drefn, oni bai ei fod yn credu bod y risg i chi yn uwch. Nid yw'r rhain wedi'u cynnwys ar y cerdyn hwn.



**CYFFREDIN IAWN** – mwy nag 1 o bob 10  
Sy'n cyfateb i un person yn eich teulu



Cyfog



Crynu



Syched\*



Dolur gwddf / Gwddf tost



Cleisio



Colli cof dros dro (yn bennaf mewn pobl dros 60 oed)



**CYFFREDIN** – rhwng 1 o bob 10 ac 1 o bob 100  
Sy'n cyfateb i un person mewn stryd



Poen o amgylch safle'r pigiad\*



Mân anaf i'r wefus neu'r tafod



**ANGHYFFREDIN** – rhwng 1 o bob 100 ac 1 o bob 1,000  
Sy'n cyfateb i un person mewn pentref



Mân anaf i'r nerf



**PRIN** – rhwng 1 o bob 1,000 ac 1 o bob 10,000  
Sy'n cyfateb i un person mewn tref fach



**1 o bob 1,000**  
Niwed ymylol parhaol i'r nerf



**1 o bob 2,800**  
Ysgythriad cornbilennol (crafiad ar y llygad)



**1 o bob 4,500**  
Niwed i ddannedd sy'n peri bod angen triniaeth



**1 o bob 10,000**  
Anaffylacsis (adwaith alergaidd difrifol i gyffur)



**PRIN IAWN** – rhwng 1 o bob 10,000 ac 1 o bob 100,000 new fwy  
Sy'n cyfateb i un person mewn tref fawr



Mae'r risgiau rydyn ni i gyd yn eu cymryd mewn bywyd normal, **fel teithio ar y ffordd**, mewn gwirionedd yn llawer uwch na'r risgiau isod.



**1 o bob 20,000**  
Dod yn ymwybodol yn ystod anesthetig



**1 o bob 100,000**  
Colli golwg



**1 o bob 100,000**  
Marwolaeth o ganlyniad uniongyrchol i anesthesia

\*Astudiaeth gyntaf Prosiect Cenedlaethol Anesthesia Sprint (SNAP-1). *Br J Anaesth* 2016 (<https://academic.oup.com/bja/article/117/6/758/2671124>).